GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Dogfen Dechnegol Nyrsio

Mai 2024

# Contents

Dogfen Dechnegol Nyrsio ................................. **Error! Bookmark not defined.**

Cyflwyniad ........................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Pwrpas ........................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Cyd-destun ..................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Trosolwg ar Nyrsio yn GIG Cymru ............... **Error! Bookmark not defined.**

Niferoedd cyfwerth ag amser llawn yng Ngweithlu Nyrsio GIG Cymru **Error! Bookmark not defined.**

Niferoedd cyfwerth ag amser llawn yng Ngweithlu Nyrsio GIG Cymru yn ôl Maes ........................................ **Error! Bookmark not defined.**

Y gweithlu Nyrsio yn ôl Band .................... **Error! Bookmark not defined.**

Proffil Oedran ............................................. **Error! Bookmark not defined.**

Cyfradd Cyfranogiad ................................. **Error! Bookmark not defined.**

Y Gyfradd Ymadael ar gyfer Nyrsio Cofrestredig yn GIG Cymru .. **Error! Bookmark not defined.**

Nifer y Dechreuwyr Newydd ar gyfer Nyrsio Cofrestredig yn GIG Cymru ........................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Y Gymhareb rhwng Staff Cofrestredig a Staff Cymorth yn ôl Maes **Error! Bookmark not defined.**

Niferoedd mewn Addysg a Gomisiynwyd .............. **Error! Bookmark not defined.**

Y gweithlu Nyrsio a Bydwreigiaeth yn GIG Cymru ... **Error! Bookmark not defined.**

Gwariant ar Staff Nyrsio a Bydwreigiaeth Asiantaeth **Error! Bookmark not defined.**

Nifer a Chanran y Swyddi Gwag mewn Nyrsio a Bydwreigiaeth ... **Error! Bookmark not defined.**

Cyfraddau Salwch Misol a Blynyddol ar gyfer Staff Nyrsio a Bydwreigiaeth ............................................. **Error! Bookmark not defined.**

Nifer y Diwrnodau o Salwch Cyfwerth ag Amser Llawn ymysg Staff Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ôl y Pedwar Prif Reswm dros Salwch. **Error! Bookmark not defined.**

Trosolwg ar Nyrsio Oedolion yn GIG Cymru.............. **Error! Bookmark not defined.**

Newid yn y Gweithlu Nyrsio Oedolion dros Amser **Error! Bookmark not defined.**

Proffil Oedran Staff Nyrsio Oedolion ...... **Error! Bookmark not defined.**

Cymharu'r Proffil Oedran Nyrsio Oedolion dros 10 Mlynedd ......... **Error! Bookmark not defined.**

Nyrsio Oedolion yn ôl Band....................... **Error! Bookmark not defined.**

Newid ymysg Staff Cyfwerth ag Amser Llawn dros Amser yn ôl Gradd Cyflog ............................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Cyfradd Cyfranogiad yn ôl Oedran ......... **Error! Bookmark not defined.**

Y Gyfradd Ymadael ar gyfer Nyrsio Oedolion Cofrestredig ........... **Error! Bookmark not defined.**

Nifer y Dechreuwyr Newydd mewn Nyrsio Oedolion Cofrestredig **Error! Bookmark not defined.**

Y Gyfradd Salwch ym Maes Nyrsio Oedolion ........ **Error! Bookmark not defined.**

Nyrsio Plant a Phobl Ifanc yn GIG Cymru... **Error! Bookmark not defined.**

Newid yn y Gweithlu Nyrsio Plant a Phobl Ifanc dros Amser ......... **Error! Bookmark not defined.**

Proffil Oedran Staff Nyrsio Plant a Phobl Ifanc ..... **Error! Bookmark not defined.**

Cymharu'r Proffil Oedran Nyrsio Plant a Phobl Ifanc dros 10 Mlynedd **Error! Bookmark not defined.**

Nyrsio Plant a Phobl Ifanc yn ôl Band..... **Error! Bookmark not defined.**

Newid ymysg Staff Nyrsio Plant a Phobl Ifanc Cyfwerth ag Amser Llawn dros Amser yn ôl Gradd Cyflog ... **Error! Bookmark not defined.**

Cyfradd Cyfranogiad yn ôl Oedran mewn Nyrsio Plant a Phobl Ifanc **Error! Bookmark not defined.**

Y Gyfradd Ymadael ar gyfer Nyrsio Plant a Phobl Ifanc Cofrestredig **Error! Bookmark not defined.**

Nifer y Dechreuwyr Newydd mewn Nyrsio Plant a Phobl Ifanc Cofrestredig ................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Y Gyfradd Salwch ym Maes Nyrsio Plant a Phobl Ifanc**Error! Bookmark not defined.**

Nyrsio Iechyd Meddwl yn GIG Cymru.......... **Error! Bookmark not defined.**

Newid yn y Gweithlu Nyrsio Iechyd Meddwl dros Amser ................**Error! Bookmark not defined.**

Proffil Oedran Staff Nyrsio Iechyd Meddwl ............ **Error! Bookmark not defined.**

Cymharu'r Proffil Oedran Nyrsio Iechyd Meddwl dros 10 Mlynedd**Error! Bookmark not defined.**

Nyrsio Iechyd Meddwl yn ôl Band........... **Error! Bookmark not defined.**

Newid ymysg Staff Nyrsio Iechyd Meddwl Cyfwerth ag Amser Llawn dros Amser yn ôl Gradd Cyflog ................ **Error! Bookmark not defined.**

Cyfradd Cyfranogiad yn ôl Oedran ym Maes Nyrsio Iechyd Meddwl **Error! Bookmark not defined.**

Y Gyfradd Ymadael ar gyfer Nyrsio Iechyd Meddwl Cofrestredig **Error! Bookmark not defined.**

Nifer y Dechreuwyr Newydd mewn Nyrsio Iechyd Meddwl Cofrestredig ................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Y Gyfradd Salwch ym Maes Nyrsio Iechyd Meddwl .... **Error! Bookmark not defined.**

Nyrsio Anableddau Dysgu yn GIG Cymru.. **Error! Bookmark not defined.**

Newid yn y Gweithlu Nyrsio Anableddau Dysgu dros Amser.........**Error! Bookmark not defined.**

Proffil Oedran Staff Nyrsio Anableddau Dysgu .... **Error! Bookmark not defined.**

Cymharu'r Proffil Oedran Nyrsio Anableddau Dysgu dros 10 Mlynedd **Error! Bookmark not defined.**

Nyrsio Anableddau Dysgu yn ôl Band.... **Error! Bookmark not defined.**

Newid ymysg Staff Nyrsio Anableddau Dysgu Cyfwerth ag Amser Llawn dros Amser yn ôl Gradd Cyflog ... **Error! Bookmark not defined.**

Cyfradd Cyfranogiad yn ôl Oedran ym Maes Nyrsio Anableddau Dysgu **Error! Bookmark not defined.**

Y Gyfradd Ymadael ar gyfer Nyrsio Anableddau Dysgu Cofrestredig **Error! Bookmark not defined.**

Nifer y Dechreuwyr Newydd mewn Nyrsio Anableddau Dysgu Cofrestredig .................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Y Gyfradd Salwch ym Maes Nyrsio Anableddau Dysgu.................... **Error! Bookmark not defined.**

Nyrsio mewn Ymarfer Cyffredinol ................ **Error! Bookmark not defined.**

Newid yn y Gweithlu Nyrsio Ymarfer Cyffredinol dros Amser ....... **Error! Bookmark not defined.**

Proffil Oedran Staff Nyrsio Ymarfer Cyffredinol ... **Error! Bookmark not defined.**

Cyfradd Cyfranogiad mewn Nyrsio Ymarfer Cyffredinol.................. **Error! Bookmark not defined.**

Cyfradd Cyfranogiad yn ôl Band Oedran mewn Nyrsio Ymarfer Cyffredinol ...................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Dogfen Dechnegol Nyrsio

1. Cyflwyniad

1. Pwrpas

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg a dadansoddiad o dueddiadau yn y gweithlu Nyrsio cofrestredig a chymorth Nyrsio i ategu'r Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol.

2. Cyd-destun

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddata am y gweithlu sydd ar gael yn Warws Data y Cofnod Staff Electronig (ESR DW) ac ar wefan StatsCymru. Rydym yn cydnabod, mewn perthynas ag Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn benodol, fod nifer o Nyrsys sy'n gweithio y tu allan i GIG Cymru. Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o'r data hyn oherwydd argaeledd data a'r angen am gysondeb wrth adrodd.


Rhannwyd yr adroddiad hwn yn 7 prif adran:

1. Trosolwg ar Nyrsio yn GIG Cymru
2. Y gweithlu Nyrsio a Bydwreigiaeth yn GIG Cymru
3. Trosolwg ar Nyrsio Oedolion yn GIG Cymru
4. Nyrsio Plant a Phobl Ifanc yn GIG Cymru
5. Nyrsio Iechyd Meddwl yn GIG Cymru
6. Nyrsio Anableddau Dysgu yn GIG Cymru
7. Nyrsio mewn Ymarfer Cyffredinol

2. Trosolwg ar Nyrsio yn GIG Cymru

Yn yr adran hon, cynigir trosolwg ar y gweithlu Nyrsio yn GIG Cymru gan ddefnyddio data am y gweithlu sydd yn ESR DW.


1. Niferoedd cyfwerth ag amser llawn yng Ngweithlu Nyrsio GIG Cymru




*Ffynhonnell data: ESR DW*

Mae'r gweithlu Nyrsio wedi tyfu 17% er 2013. Mae'r graff yn dangos bod y twf rhwng 2013 a 2019 wedi bod yn gymharol fach, sef 3%, ond bod y gweithlu wedi tyfu'n sylweddol rhwng 2019 a 2023 gyda thwf o 13%.

## 2. Niferoedd cyfwerth ag amser llawn yng Ngweithlu Nyrsio GIG Cymru yn ôl Maes




Nyrsio AD Nyrsio PPI Nyrsio IM Nyrsio Oedolion

*Ffynhonnell data: ESR DW*

O’r pedwar maes Nyrsio, ym maes Nyrsio Oedolion y mae’r niferoedd mwyaf o rai cyfwerth ag amser llawn, sef 73% o’r gweithlu cyfan.

### 3. Y gweithlu Nyrsio yn ôl Band





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Y band lle mae’r ganran fwyaf o rai cyfwerth ag amser llawn yw Band 5, sef 29% o’r gweithlu Nyrsio cyfwerth ag amser llawn.

Yn y grŵp staff Nyrsio cofrestredig, mae Band 5 yn cynnwys 42% o'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn. Yn y grŵp staff cymorth Nyrsio, mae mwyafrif y staff yn cael eu talu ar lefel Band 2 (57%).

## 4. Proffil Oedran





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsio cofrestredig, y band oedran sydd â'r gyfran fwyaf o niferoedd cyfwerth ag amser llawn yw 30-34, sef 15% o'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn. Yn y grŵp staff cymorth Nyrsio, mae mwyafrif y staff yn y bandiau oedran 30-34, 35-39, 50-54, a 55-60, sydd ag 13% o'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn ym mhob un.

## 5. Cyfradd Cyfranogiad

Mae'r gyfradd cyfranogiad yn rhif rhwng 0 a 1 sydd yn fesur o weithio rhan-amser. Ceir y rhif hwn drwy rannu'r nifer cyfwerth ag amser llawn sydd â chontract â'r cyfrif pennau. Po uchaf yw'r gyfradd cyfranogiad, mwyaf yw'r oriau y mae person yn eu gweithio bob wythnos ar gyfartaledd.





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsio cofrestredig, mae'r gyfradd cyfranogiad wedi aros yn sefydlog dros y deng mlynedd diwethaf, ar 0.88. Yn y grŵp staff cymorth Nyrsio, mae'r gyfradd cyfranogiad wedi cynyddu o 0.85 i 0.86.

## 6. Y Gyfradd Ymadael ar gyfer Nyrsio Cofrestredig yn GIG Cymru

Mae'r gyfradd ymadael yn dangos canran y Nyrsys cofrestredig sy'n gadael o fewn pob band oedran. Er enghraifft, os oes 100 o Nyrsys ym mand oedran 25-29 a bod 10 o Nyrsys yn ymadael, yna y gyfradd ymadael fyddai 10%. Mae ymadawyr yn unigolion sy'n gadael swydd â chontract parhaol neu gontract cyfnod penodol ac yn peidio ag ymddangos yn GIG Cymru yn ystod y flwyddyn olynol. Nid yw'r graff yn cynnwys Nyrsys sy'n gadael i symud i ran arall o'r sefydliad na symudiadau i sefydliad arall.





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Ac eithrio bandiau oedran 55-59 a 60+, mae'r gyfradd ymadael yn 2023 yn uwch nag yn 2013. Yn 2013, roedd 19% o Nyrsys wedi ymadael yn y band oedran 60+: mae'r ganran hon wedi gostwng i 14%. Cafwyd y cynnydd mwyaf yn y cyfraddau ymadael rhwng 2013 a 2023 yn y band oedran 35-39, sef newid o 3% i 5%.

## 7. Nifer y Dechreuwyr Newydd ar gyfer Nyrsio Cofrestredig yn GIG Cymru


Y rheini sydd yn y categori Dechreuwr yw unigolion sydd wedi'u penodi i swydd yn GIG Cymru ar gontract parhaol neu gontract cyfnod penodol ac a oedd heb fod yn gyflogedig yn y flwyddyn flaenorol mewn unrhyw sefydliad yn GIG Cymru ar gontract parhaol neu gontract cyfnod penodol. Nid yw'r graff yn cynnwys Nyrsys cofrestredig sy'n dod o ran arall o'r sefydliad neu'n symud o sefydliad arall.




*Ffynhonnell data: ESR DW*

Mae'r gweithlu (fel y cyfeiriwyd ato uchod) wedi tyfu dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r graff yn dangos bod cynnydd sylweddol yn nifer y Nyrsys cofrestredig sydd wedi ymuno â'r gweithlu. Yn gyffredinol, roedd nifer y Nyrsys cyfwerth ag amser llawn a ddechreuodd yn 2023 yn 1268 yn fwy na'r nifer a ddechreuodd yn 2013. Gwelwyd cynnydd yn nifer y dechreuwyr ym mhob band oedran. Cafwyd y cynnydd mwyaf yn y band oedran 25-29, sef cynnydd o 300 yn y nifer cyfwerth ag amser llawn.

## 8. Y Gymhareb rhwng Staff Cofrestredig a Staff Cymorth yn ôl Maes





9. *Ffynhonnell data: ESR DW*

**Y rhaniad cyffredinol rhwng staff cofrestredig a staff cymorth yw 66% a 34% yn y drefn honno**. Ffactor pwysig yn y canrannau hyn yw maes Nyrsio Oedolion oherwydd cyfanswm mawr y niferoedd yn y maes hwn. Y maes lle mae'r gymhareb isaf yw Nyrsio PPI lle mae 18% yn staff cymorth ac mae'r gymhareb uchaf ym maes Nyrsio Anableddau Dysgu lle mae 45% yn staff cymorth.

10. Niferoedd mewn Addysg a Gomisiynwyd

**Lleoedd a Gomisiynwyd mewn Addysg Nyrsio**




*Ffynhonnell data: Warws Data AaGIC*

**Mae AaGIC wedi cynyddu nifer y lleoedd a gomisiynwyd ar gyfer Nyrsys cofrestredig 154%,** o 1000 o leoedd yn 2013 i fwy na 2500 yn 2023.

Y gweithlu Nyrsio a Bydwreigiaeth yn GIG Cymru

Mae'r data cenedlaethol am weithlu GIG Cymru mewn perthynas â chyllid a swyddi gwag yn cael eu cyfuno ar sail grwpiau staff. Staff Nyrsio a Bydwreigiaeth cofrestredig yw un o'r grwpiau hynny. Mae data ar gael yn rhwydd yn y fformat hwn. Mae'r dadansoddiadau canlynol wedi'u dangos ar y lefel hon.


11. Gwariant ar Staff Nyrsio a Bydwreigiaeth Asiantaeth




*Ffynhonnell data: Ffurflenni Monitro Ariannol*

**Mae'r gwariant ar staff asiantaeth wedi cynyddu bob blwyddyn**; cafwyd cynnydd o fwy na 200% yn y gwariant ar staff asiantaeth rhwng 2017/18 a 2022/23.

12. Nifer a Chanran y Swyddi Gwag mewn Nyrsio a Bydwreigiaeth





*Ffynhonnell data: StatsCymru*

**Mae canran y swyddi gwag wedi aros oddeutu 9%.** Mae'r data diweddaraf ar wefan StatsCymru yn dangos bod mwy na 2500 o swyddi gwag ar draws GIG Cymru[1].

## 13. Cyfraddau Salwch Misol a Blynyddol ar gyfer Staff Nyrsio a Bydwreigiaeth


% = Cyfradd salwch 12 mis



*Ffynhonnell data: ESR DW*

**Mae'r gyfradd salwch 12 mis wedi bod yn uwch na 6%** er 2020 ac mae'n parhau'n uchel. Yn 20221/22 y cafwyd y gyfradd salwch 12 mis uchaf yn y 5 mlynedd diwethaf, sef 7.3%.

14. Nifer y Diwrnodau o Salwch Cyfwerth ag Amser Llawn ymysg Staff Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ôl y Pedwar Prif Reswm dros Salwch





*Ffynhonnell data: ESR DW*

**Gellir priodoli 29% o'r holl achosion o salwch i Orbryder/Straen.** Dyma'r achos sy'n cyfrannu fwyaf at salwch.

## 3. Trosolwg ar Nyrsio Oedolion yn GIG Cymru

Cafwyd yr holl ddata a graffiau sydd wedi'u crynhoi yn yr adran hon o Warws Data yr ESR ac maent yn rhoi trosolwg lefel uchel ar y gweithlu Nyrsio Oedolion.

1. Newid yn y Gweithlu Nyrsio Oedolion dros Amser





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys Oedolion cofrestredig, mae'r nifer cyfwerth ag amser llawn wedi cynyddu dros amser o 14,968 ym mis Medi 2013 i 17,593 ym mis Medi 2023, cynnydd o 16%. Roedd y nifer cyfwerth ag amser llawn wedi aros yn sefydlog rhwng 2013 a 2019 gyda chynnydd o ddim ond 1%, ac wedi cynyddu'n raddol ar ôl 2019.

Yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys Oedolion, mae'r nifer cyfwerth ag amser llawn wedi cynyddu o 6,416 i 9,471, sef cynnydd o 31%. Rhwng Medi 2019 a Medi 2020, cafwyd cynnydd cyflymach yn y nifer cyfwerth ag amser llawn.

2. Proffil Oedran Staff Nyrsio Oedolion






*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys Oedolion cofrestredig, y bandiau oedran mwyaf yw 30-34 a 50-54, y ddau ohonynt yn cynnwys 15% o'r nifer cyfwerth ag amser llawn. Rhwng y ddau fand oedran hyn, mae niferoedd llai o staff cyfwerth ag amser llawn, a'r bandiau oedran 35-39, 40-44 a 45-49 yn cynnwys 13%, 12% a 13% o'r gweithlu cofrestredig, yn y drefn honno.

Yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys Oedolion, mae mwyafrif y staff yn y bandiau oedran 30-34, 35-39, 50-54 a 55-60, pob un ohonynt yn cynnwys 13% o'r grŵp staff cyfwerth ag amser llawn. Yn yr un modd â'r grŵp staff Nyrsys Oedolion cofrestredig, mae niferoedd llai o staff cyfwerth ag amser llawn yn y bandiau oedran sydd rhwng y rhain, a'r bandiau oedran 40-44 a 45-49 ill dau'n cynnwys 10% o'r grŵp staff cyfwerth ag amser llawn.

## 3. Cymharu'r Proffil Oedran Nyrsio Oedolion dros 10 Mlynedd




*Ffynhonnell data: ESR DW*


Ymysg Nyrsys Oedolion cofrestredig, mae'r dosbarthiad oedran wedi mynd ychydig yn fwy gwastad rhwng 2013 a 2023, ac mae'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal rhwng y bandiau oedran yn 2023. Ym mis Medi 2013, y band oedran mwyaf oedd 45-49, sef 18% o'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn. Ym mis Medi 2023, y bandiau oedran mwyaf oedd 30-34 a 50-54 (15% o'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn ill dau).

Yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys Oedolion hefyd, mae'r dosbarthiad oedran wedi mynd yn fwy gwastad dros amser. Ym mis Medi 2013, y bandiau

oedran mwyaf oedd 45-49 a 50-54, y ddau ohonynt yn cynnwys 18% o'r staff cyfwerth ag amser llawn, tra gwelir mai 30-34, 35,39, 50-54 a 55-60 oedd y bandiau mwyaf ym mis Medi 2023, pob un yn cynnwys 13% o'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn.

Dros y 10 mlynedd diwethaf, yn y grwpiau staff Nyrsys Oedolion cofrestredig a staff Cymorth Nyrsys Oedolion, mae cyfran y staff cyfwerth ag amser llawn yn y bandiau oedran 40-44, 45-49 a 50-55 wedi gostwng, tra oedd cynnydd ym mhob un o'r bandiau oedran eraill.

## 4. Nyrsio Oedolion yn ôl Band





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys Oedolion cofrestredig, mae 49% o'r staff cyfwerth ag amser llawn yn cael tâl ar lefel Band 5.

Yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys Oedolion, mae mwyafrif y staff yn cael tâl ar lefel Band 2 (65% o'r staff cyfwerth ag amser llawn).

## 5. Newid ymysg Staff Cyfwerth ag Amser Llawn dros Amser yn ôl Gradd Cyflog

Newid Canrannol ymysg Staff Cyfwerth ag Amser Llawn dros Amser yn ol Gradd Cyflog





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae nifer y staff cyfwerth ag amser llawn ym mandiau 2-4 wedi cynyddu o 6,398 i 9,471 (cynnydd o 48%) gyda chynnydd cyflymach rhwng Medi 2019 a Medi 2020.

ae nifer y staff cyfwerth ag amser llawn ym mandiau 5-6 wedi cynyddu o 11,995 i 13,251 (cynnydd o 10%), gan aros yn sefydlog tan 2020 a chynyddu wedyn.

Mae canran y cynnydd ymysg staff cyfwerth ag amser llawn ym mandiau 7+ wedi bod yn debyg i hynny ym mandiau 2-4, gan gynyddu o 2,960 i 4,298 (cynnydd o 45%).

## 6. Cyfradd Cyfranogiad yn ôl Oedran




*Ffynhonnell data: ESR DW*


Yn y grŵp staff Nyrsys Oedolion cofrestredig, mae'r gyfradd cyfranogiad ar ei huchaf yn y band oedran Dan 25 ar 0.98. Ceir gostyngiad mawr ar ôl band oedran 50-54 at gyfradd cyfranogiad o 0.64 yn y band oedran Dros 60.

Gwelir patrwm tebyg yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys Oedolion, lle mae cyfradd cyfranogiad sy'n dechrau ar 0.90 ymysg rhai Dan 25 a gostyngiad mawr ar ôl y band oedran 50-54 at 0.73 yn y band oedran Dros 60.

Mae'r gyfradd cyfranogiad yn y grŵp staff Nyrsys Oedolion cofrestredig yn uwch nag yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys Oedolion yn yr holl fandiau oedran ac eithrio 55-60 a Dros 60.

## 7. Y Gyfradd Ymadael ar gyfer Nyrsio Oedolion Cofrestredig


Dan 25 Cyfradd Ymadael GIG Cymru yn ôl Oedran ar gyfer Nyrsio Oedolion Cofrestredig (2013 a 2023)




*Ffynhonnell data: ESR DW*

Mae'r gyfradd ymadael ar gyfer Nyrsys Oedolion cofrestredig yn 2023 yn uwch na honno ar gyfer 2013 yn yr holl fandiau oedran ac eithrio 55-59 a 60+. Gwelir cynnydd sydd ymysg y rhai mwyaf yn y band oedran Dan 25: yn 2013, roedd 6% o Nyrsys wedi gadael y gweithlu yn y band oedran hwnnw, ac mae'r ffigur hwnnw wedi codi i 8%.


## 8. Nifer y Dechreuwyr Newydd mewn Nyrsio Oedolion Cofrestredig




*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn gyffredinol, roedd 938 yn fwy o Nyrsys cyfwerth ag amser llawn wedi dechrau yn 2023 o gymharu â 2013. Cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y Nyrsys a ymunodd â'r gweithlu ym mhob band oedran. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y band oedran 25-29 lle cafwyd cynnydd o 255 yn y nifer cyfwerth ag amser llawn.

## 9. Y Gyfradd Salwch ym Maes Nyrsio Oedolion





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Dros y 5 mlynedd diwethaf, gwelwyd patrwm tebyg yn y cyfraddau salwch ar gyfer y grŵp staff Nyrsys Oedolion cofrestredig a'r grŵp staff Cymorth Nyrsys Oedolion. Cafwyd y cyfraddau salwch uchaf ym mis Medi 2021 pan oedd cyfradd o 8% ymysg Nyrsys Oedolion cofrestredig a chyfradd o 12% ymysg staff Cymorth Nyrsys Oedolion. Mae'r gyfradd salwch yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys Oedolion wedi aros yn uwch drwy'r amser nag yn y grŵp staff Nyrsys Oedolion cofrestredig.

## 4. Nyrsio Plant a Phobl Ifanc yn GIG Cymru

Cafwyd yr holl ddata a graffiau sydd wedi'u crynhoi yn yr adran hon o Warws Data yr ESR ac maent yn rhoi trosolwg lefel uchel ar y gweithlu Nyrsio Plant a Phobl Ifanc (PPI).

### 1. Newid yn y Gweithlu Nyrsio Plant a Phobl Ifanc dros Amser





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys PPI cofrestredig, mae'r nifer cyfwerth ag amser llawn wedi cynyddu dros amser o 2,205 ym mis Medi 2013 i 2,656 ym mis Medi 2023, cynnydd o 20%.

Yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys PPI, mae'r nifer cyfwerth ag amser llawn wedi cynyddu o 416 i 576, sef cynnydd o 39%.

## 2. Proffil Oedran Staff Nyrsio Plant a Phobl Ifanc





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys PPI cofrestredig, y bandiau oedran mwyaf yw 40-44 a 50-54, y ddau ohonynt yn cynnwys 14% o'r nifer cyfwerth ag amser llawn.

Yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys PPI, y band oedran mwyaf yw 30-34, sy'n cynnwys 16% o'r nifer cyfwerth ag amser llawn.

## 3. Cymharu'r Proffil Oedran Nyrsio Plant a Phobl Ifanc dros 10 Mlynedd








*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys PPI cofrestredig, mae'r dosbarthiad oedran wedi mynd yn fwy gwastad dros amser rhwng 2013 a 2023, ac mae'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal rhwng y bandiau oedran yn 2023. Y newid mwyaf yw'r gostyngiad yng nghyfran y niferoedd cyfwerth ag amser llawn sydd yn y bandiau oedran 45-49 a 50-54.

Ym mis Medi 2013, y band oedran mwyaf yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys PPI oedd 50-54, yn cynnwys 17% o'r staff cyfwerth ag amser llawn, tra gwelir mai'r band oedran mwyaf ym mis Medi 2023 oedd 30-34, yn cynnwys 16% o'r staff cyfwerth ag amser llawn.

## 4. Nyrsio Plant a Phobl Ifanc yn ôl Band








*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys PPI cofrestredig, Band 6 sy'n cynnwys y gyfran fwyaf o staff cyfwerth ag amser llawn (46%)

Yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys PPI, Band 3 sy'n cynnwys y gyfran fwyaf o staff cyfwerth ag amser llawn (42%).


5. **Newid ymysg Staff Nyrsio Plant a Phobl Ifanc Cyfwerth ag Amser Llawn dros Amser yn ôl Gradd Cyflog**




*Ffynhonnell data: ESR DW*

Dros y 10 mlynedd diwethaf, yn y Band 2-4 y gwelwyd y cynnydd canrannol mwyaf yn y niferoedd cyfwerth ag amser llawn o 416 i 576 (cynnydd o 39%) a gwelwyd cynnydd mwy sylweddol ar ôl Medi 2020. Mae'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn yn y Band 5-6 wedi cynyddu o 1,744 i 2,127 (cynnydd o 22%) a'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn yn y Band 7+ wedi cynyddu o 459 i 528 (cynnydd o 15%).

## 6. Cyfradd Cyfranogiad yn ôl Oedran mewn Nyrsio Plant a Phobl Ifanc




*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys PPI cofrestredig, mae'r gyfradd cyfranogiad ar ei huchaf yn y band oedran Dan 25 ar 0.98 ac yn gostwng wedyn wrth i'r oedran gynyddu nes cyrraedd 0.84 yn y band oedran 35-39. Ceir gostyngiad ar ôl y band oedran 50-54 at gyfradd cyfranogiad o 0.65 yn y band oedran Dros 60.

Gwelir patrwm tebyg yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys PPI, lle mae cyfradd cyfranogiad sy'n dechrau ar 0.90 ymysg rhai Dan 25 a gostyngiad wedyn i 0.76 yn y band oedran 30-34. Mae'r gyfradd cyfranogiad yn gostwng ar ôl y band oedran 50-54 nes cyrraedd 0.69 yn y band oedran Dros 60.

## 7. Y Gyfradd Ymadael ar gyfer Nyrsio Plant a Phobl Ifanc Cofrestredig





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Mae proffil y gyfradd ymadael ar gyfer Nyrsys Plant a Phobl Ifanc Cofrestredig wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng yr oedrannau 40 a 54.

Cafwyd cynnydd amlwg yn y band oedran 35-39 a gostyngiad mawr yn y ganran ar gyfer pobl sy'n ymadael yn 60+ oed.


## 8. Nifer y Dechreuwyr Newydd mewn Nyrsio Plant a Phobl Ifanc Cofrestredig




*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn gyffredinol, roedd 129 yn fwy o Nyrsys cofrestredig wedi dechrau yn 2023 o gymharu â 2013. Cafwyd cynnydd yn nifer y Nyrsys Plant a Phobl Ifanc ym mhob band oedran. Cafwyd y cynnydd mwyaf yn y band oedran Dan 25, lle'r oedd nifer y dechreuwyr wedi cynyddu o 23 i 92.

## 9. Y Gyfradd Salwch ym Maes Nyrsio Plant a Phobl Ifanc




*Ffynhonnell data: ESR DW*


Yn y grŵp staff Nyrsys PPI cofrestredig a'r grŵp staff Cymorth Nyrsys PPI ill dau, roedd y cyfraddau salwch ar eu huchaf ym Mawrth 2022 pan gafwyd cyfradd o 7% ymysg Nyrsys PPI cofrestredig a chyfradd o 12% ymysg staff Cymorth Nyrsys PPI.

Ym mis Medi 2023, y cyfraddau salwch ar gyfer Nyrsys PPI cofrestredig a staff Cymorth Nyrsys PPI oedd 6% a 7% yn y drefn honno.

## 5. Nyrsio Iechyd Meddwl yn GIG Cymru

Cafwyd yr holl ddata a graffiau sydd wedi'u crynhoi yn yr adran hon o Warws Data yr ESR ac maent yn rhoi trosolwg lefel uchel ar y gweithlu Nyrsio Iechyd Meddwl.

### 1. Newid yn y Gweithlu Nyrsio Iechyd Meddwl dros Amser





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys Iechyd Meddwl cofrestredig, mae'r nifer cyfwerth ag amser llawn wedi cynyddu dros amser o 3,010 ym mis Medi 2013 i 3,320 ym mis Medi 2023, cynnydd o 10%.

Yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys Iechyd Meddwl, mae'r nifer cyfwerth ag amser llawn wedi gostwng o 1,926 i 1,878, gostyngiad canrannol o 3%.

## 2. Proffil Oedran Staff Nyrsio Iechyd Meddwl






*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys Iechyd Meddwl cofrestredig, y bandiau oedran mwyaf yw 30-34 a 35-39, y ddau ohonynt yn cynnwys 14% o'r nifer cyfwerth ag amser llawn.


Yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys Iechyd Meddwl, y band oedran mwyaf yw 55-60, yn cynnwys 16% o'r grŵp staff cyfwerth ag amser llawn.

## 3. Cymharu'r Proffil Oedran Nyrsio Iechyd Meddwl dros 10 Mlynedd



Proffil Oedran – Cymharu dros 10 Mlynedd





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys Iechyd Meddwl cofrestredig, mae'r dosbarthiad oedran wedi mynd yn fwy gwastad dros amser rhwng 2013 a 2023, ac mae'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal rhwng y bandiau oedran yn 2023. Ym mis Medi 2013, y bandiau oedran mwyaf oedd 45-49 a 50-45, y ddau ohonynt yn cynnwys 23% o'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn. Ym mis Medi 2023, y bandiau oedran mwyaf oedd 30-34 a 35-39, y ddau ohonynt yn cynnwys 14% o'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn.

Yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys Iechyd Meddwl hefyd, mae'r dosbarthiad oedran wedi mynd yn fwy gwastad dros amser. Ym mis Medi 2013, y band oedran mwyaf oedd 50-54, a hwnnw'n cynnwys 20% o'r staff cyfwerth ag amser llawn, tra gwelir mai 55-60 oedd y band oedran mwyaf ym mis Medi 2023, a hwnnw'n cynnwys 16% o'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn.

Y newid mwyaf a gafwyd yn y grŵp staff cofrestredig a'r grŵp staff cymorth oedd y gostyngiad yng nghyfran y staff cyfwerth ag amser llawn sydd yn y bandiau oedran 45-49 a 50-54.

4. Nyrsio Iechyd Meddwl yn ôl Band





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys Iechyd Meddwl cofrestredig, mae mwyafrif y staff yn cael tâl ar lefel Band 6 (51% o'r grŵp staff cyfwerth ag amser llawn).

Yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys Iechyd Meddwl, mae mwyafrif y staff yn cael tâl ar lefel Band 3 (58% o'r grŵp staff cyfwerth ag amser llawn).

5. Newid ymysg Staff Nyrsio Iechyd Meddwl Cyfwerth ag Amser Llawn dros Amser yn ôl Gradd Cyflog





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Dros y 10 mlynedd diwethaf, yn y Band 7+ y cafwyd y cynnydd canrannol mwyaf yn y nifer cyfwerth ag amser llawn o 663 i 822 (cynnydd o 24%), a'r cynnydd hwnnw wedi dechrau yn 2018.

Mae'r nifer cyfwerth ag amser llawn yn y Band 5-6 wedi cynyddu o 2,344 i 2,495 (cynnydd o 6%) ac mae'r nifer cyfwerth ag amser llawn yn y Band 2-4 wedi gostwng o 1,922 i 1,878 (gostyngiad o 2%).


## 6. Cyfradd Cyfranogiad yn ôl Oedran ym Maes Nyrsio Iechyd Meddwl




*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys Iechyd Meddwl cofrestredig a'r grŵp staff Cymorth Nyrsys Iechyd Meddwl, mae'r gyfradd cyfranogiad ar ei huchaf yn y band oedran Dan 25 (1.0 a 0.96, yn y drefn honno). Mae'r gyfradd cyfranogiad yn gostwng ar ôl y band oedran 50-54.


## 7. Y Gyfradd Ymadael ar gyfer Nyrsio Iechyd Meddwl Cofrestredig




*Ffynhonnell data: ESR DW*

Rhwng 30 oed a 49 oed, mae'r gyfradd ymadael yn aros o dan 5%. Cafwyd cynnydd mawr yng nghanran y Nyrsys cofrestredig sy'n gadael yn y band oedran 50-54, o 6% yn 2013 i 11% yn 2023. Roedd gostyngiad amlwg yng nghanran y Nyrsys sy'n gadael yn y bandiau oedran Dan 25, 55-59 a 60+.


## 8. Nifer y Dechreuwyr Newydd mewn Nyrsio Iechyd Meddwl Cofrestredig




*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn gyffredinol, roedd 156 yn fwy o Nyrsys cofrestredig wedi dechrau yn 2023 o gymharu â 2013. Mae nifer y Nyrsys Iechyd Meddwl wedi cynyddu ym mhob band oedran. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y band oedran Dan 25, lle mae nifer y dechreuwyr wedi cynyddu o 24 i 70.

## 9. Y Gyfradd Salwch ym Maes Nyrsio Iechyd Meddwl




*Ffynhonnell data: ESR DW*


Yn y grŵp staff Nyrsys Iechyd Meddwl cofrestredig a'r grŵp staff Cymorth Nyrsys Iechyd Meddwl, cafwyd y cyfraddau salwch uchaf ym mis Medi 2021 pan oedd cyfradd o 8% ymysg Nyrsys Iechyd Meddwl cofrestredig a chyfradd o 12% ymysg staff Cymorth Nyrsys Iechyd Meddwl.

Ym mis Medi 2023, y cyfraddau salwch ar gyfer Nyrsys Iechyd Meddwl cofrestredig a staff Cymorth Nyrsys Iechyd Meddwl oedd 7% ac 11% yn y drefn honno.

## 6. Nyrsio Anableddau Dysgu yn GIG Cymru

Cafwyd yr holl ddata a graffiau sydd wedi'u crynhoi yn yr adran hon o Warws Data yr ESR ac maent yn rhoi trosolwg lefel uchel ar y gweithlu Nyrsio Anableddau Dysgu.

### 1. Newid yn y Gweithlu Nyrsio Anableddau Dysgu dros Amser





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys Anableddau Dysgu cofrestredig, mae'r nifer cyfwerth ag amser llawn wedi cynyddu dros amser o 437 ym mis Medi 2013 i 468 ym mis Medi 2023, cynnydd o 7%.

Yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys Anableddau Dysgu, mae'r nifer cyfwerth ag amser llawn wedi gostwng o 527 i 387, sef gostyngiad canrannol o 27%.

## 2. Proffil Oedran Staff Nyrsio Anableddau Dysgu






*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys Anableddau Dysgu cofrestredig, y band oedran mwyaf yw 45-49, sy'n cynnwys 15% o'r grŵp staff cyfwerth ag amser llawn.

Yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys Anableddau Dysgu, y band oedran mwyaf yw 55-60, sy'n cynnwys 18% o'r grŵp staff cyfwerth ag amser llawn.

## 3. Cymharu'r Proffil Oedran Nyrsio Anableddau Dysgu dros 10 Mlynedd







*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys Anableddau Dysgu cofrestredig, mae'r dosbarthiad oedran wedi mynd yn fwy gwastad dros amser rhwng 2013 a 2023, ac mae'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal rhwng y bandiau oedran yn 2023. Ym mis Medi 2013, y band oedran mwyaf oedd 50-54, sef 29% o'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn. Ym mis Medi 2023, y band oedran mwyaf oedd 45-49, sef 15% o'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn.

Yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys Anableddau Dysgu, mae'r dosbarthiad oedran wedi newid dros amser. Yn 2013, y band oedran mwyaf oedd 50-54, yn cynnwys 21% o'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn: mae hyn wedi newid bellach fel mai 55-60 yw'r band oedran mwyaf yn 2023, a hwnnw'n cynnwys 18% o'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn.

## 4. Nyrsio Anableddau Dysgu yn ôl Band

Canran Cyfwerth ag Amser Llawn yn ôl Band





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys Anableddau Dysgu cofrestredig, mae'r gyfran fwyaf o'r staff cyfwerth ag amser llawn o fewn Band 6 (43% o'r staff cyfwerth ag amser llawn).

Yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys Anableddau Dysgu, mae mwyafrif y staff yn cael tâl ar lefel Band 3 (83% o'r grŵp staff cyfwerth ag amser llawn).

## 5. Newid ymysg Staff Nyrsio Anableddau Dysgu Cyfwerth ag Amser Llawn dros Amser yn ôl Gradd Cyflog

Newid Canrannol ymysg Staff Cyfwerth ag Amser Llawn dros Amser yn ôl Gradd Cyflog




*Ffynhonnell data: ESR DW*

Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae nifer y staff cyfwerth ag amser llawn o fewn Band 5-6 wedi cynyddu o 335 i 369 (cynnydd o 10%).

Mae nifer y staff cyfwerth ag amser llawn o fewn Band 2-4 wedi gostwng o 527 i 387 (gostyngiad o 27%).

## 6. Cyfradd Cyfranogiad yn ôl Oedran ym Maes Nyrsio Anableddau Dysgu





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn y grŵp staff Nyrsys Anableddau Dysgu cofrestredig, mae'r gyfradd cyfranogiad ar ei huchaf yn y band oedran Dan 25, ar 1.0.

Yn y grŵp staff Cymorth Nyrsys Anableddau Dysgu, mae'r gyfradd cyfranogiad ar ei huchaf yn y band oedran 25-29, ar 0.97.

Yn y ddau grŵp staff, mae'r gyfradd cyfranogiad yn dechrau gostwng ar ôl y band oedran 50-54.


7. Y Gyfradd Ymadael ar gyfer Nyrsio Anableddau Dysgu Cofrestredig




*Ffynhonnell data: ESR DW*

Am mai niferoedd bach sydd yn y grŵp staff Nyrsio Anableddau Dysgu cofrestredig, mae'r newid mewn canrannau yn y grŵp yn fwy amlwg. Mae'r graff yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y Nyrsys sy'n ymadael yn y bandiau oedran 35-39 a 60+ o gymharu â 2013.


8. Nifer y Dechreuwyr Newydd mewn Nyrsio Anableddau Dysgu Cofrestredig




*Ffynhonnell data: ESR DW*

Yn gyffredinol, roedd 45 yn fwy o Nyrsys cofrestredig wedi dechrau yn 2023 o gymharu â 2013. Mae nifer y Nyrsys Anableddau Dysgu wedi cynyddu ym mhob band oedran. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y band oedran 30-34, lle'r oedd nifer y dechreuwyr wedi cynyddu o 2 i 14.

## 9. Y Gyfradd Salwch ym Maes Nyrsio Anableddau Dysgu





*Ffynhonnell data: ESR DW*

Ym mis Medi 2023, y cyfraddau salwch ar gyfer Nyrsys Anableddau Dysgu cofrestredig a staff Cymorth Nyrsys Anableddau Dysgu oedd 7% a 10% yn y drefn honno. Mae'r cyfraddau hyn wedi cynyddu yn y ddau grŵp dros y 5 mlynedd diwethaf o 4% ar gyfer Nyrsys Anableddau Dysgu cofrestredig a 6% ar gyfer staff Cymorth Nyrsys Anableddau Dysgu ym mis Mawrth 2019.

## 7. Nyrsio mewn Ymarfer Cyffredinol

Cafwyd yr holl ddata a graffiau sydd wedi'u crynhoi yn yr adran hon o wefan StatsCymru ac maent yn rhoi trosolwg lefel uchel ar y gweithlu Nyrsio Ymarfer Cyffredinol.


### 1. Newid yn y Gweithlu Nyrsio Ymarfer Cyffredinol dros Amser




*Ffynhonnell data: StatsCymru*

Yn y gweithlu Nyrsio Ymarfer Cyffredinol, y nifer cyfwerth ag amser llawn ym mis Medi 2023 oedd 1,050. Mae'r nifer hwn wedi cynyddu 4% ers Rhagfyr 2021 pan oedd yn 1,015.


## 2. Proffil Oedran Staff Nyrsio Ymarfer Cyffredinol




*Ffynhonnell data: StatsCymru*

Y band oedran mwyaf yn y gweithlu Nyrsio Ymarfer Cyffredinol yw 50-59, sy'n cynnwys 34% o'r gweithlu cyfwerth ag amser llawn.


## 3. Cyfradd Cyfranogiad mewn Nyrsio Ymarfer Cyffredinol




*Ffynhonnell data: StatsCymru*

Yn gyffredinol, mae'r cyfraddau cyfranogiad yn y gweithlu Nyrsio Ymarfer Cyffredinol wedi aros yn sefydlog. Y gyfradd cyfranogiad yn 2021 oedd 0.72 ac ym Medi 2023 roedd yn 0.73.

## 4. Cyfradd Cyfranogiad yn ôl Band Oedran mewn Nyrsio Ymarfer Cyffredinol



*Ffynhonnell data: StatsCymru*

Mae'r gyfradd cyfranogiad wedi gostwng wrth i'r oedran gynyddu gyda chyfradd cyfranogiad o 0.83 yn y band oedran Dan 30 a chyfradd cyfranogiad o 0.43 yn y band oedran 70 a hŷn.